# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET

## DYDD MERCHER, 20 RHAGFYR 2023

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt, S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley, A.Llewelyn, W.F.Griffiths a/ac S.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, N.Pearce, A.Jarrett, N.Daniel, A.Thomas, C.Griffiths, H.Jones, C.Furlow-Harris, N.Blackmore, A.James, T.Rees, A.Thomas a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod:

   Y Cynghorydd S Knoyle - Eitem Rhif 6 – Cyllid Grant y Trydydd Sector, Dyfarnu Grantiau ar gyfer 2024-25, gan ei fod yn Ymddiriedolwr Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd.

Y Cynghorydd S Jones - Eitem Rhif 6 – Cyllid Grant y Trydydd Sector, Dyfarnu Grantiau ar gyfer 2024-25, gan ei fod yn Ymddiriedolwr Hamdden Cymunedol Cwm Afan, ac yn Ymddiriedolwr Llyfrgell y Cymmer.

## 4. AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 5. CYLLIDEB 2024/25

**Penderfyniad:**

Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynigion cyllidebol drafft sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cyflawni'r gofyniad statudol i ymgynghori ar y cynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2024/25.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Mae'r penderfyniad i'w roi ar waith ar unwaith, yn dilyn cytundeb Cadeirydd Craffu'r Cabinet.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr ymgynghoriad ar yr eitem hon yn cychwyn yn syth ar ôl cyfarfod heddiw ac yn cau ar 10 Ionawr 2024.

## 6. CYLLID GRANT Y TRYDYDD SECTOR

Cyflwynodd swyddogion argymhelliad diwygiedig i'w ystyried, yn dilyn cefnogaeth Pwyllgor Craffu'r Cabinet blaenorol. Roedd hyn er mwyn rhoi mwy o amser i swyddogion benderfynu a oedd ffynonellau cyllid amgen ar gael i nifer o'r ymgeiswyr. Derbyniodd y Cabinet yr argymhelliad diwygiedig, sy'n cael ei adlewyrchu fel y penderfyniad isod.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r grant (a nodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad a ddosbarthwyd) i Ganolfan Maerdy ac Ymddiriedolaeth Datblygu Ystalyfera, a nodi bod y ceisiadau ychwanegol am grantiau yn cael eu dwyn i gyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol ym mis Ionawr 2024 i'w penderfynu gan yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo grantiau i sefydliadau'r trydydd sector yn unol â Chynllun y Cyngor.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Mae'r penderfyniad i'w roi ar waith ar unwaith, yn dilyn cytundeb Cadeirydd Craffu'r Cabinet.

7. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD**: Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) o Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod y cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

9. **DYFARNU GRANTIAU AR GYFER 2024 - 2025 - ACHOS BUSNES AMLINELLOL - PORTHLADD RHYDD CELTAIDD (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAPH 14)**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet perthnasol) gytuno i

unrhyw amrywiadau y gall fod eu hangen i'r Achos Busnes Amlinellol (ABA) a nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad Preifat a ddosbarthwyd, ac i gymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraethau'r DU a Chymru;

2. Yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru y bydd cyfraddau annomestig yn cael eu cadw'n briodol, rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet perthnasol) gytuno i ddiwygiadau terfynol i'r Achos Busnes Amlinellol yn dilyn adborth gan y ddwy lywodraeth er mwyn galluogi'r ddwy lywodraeth i gadarnhau eu bod yn derbyn yr ABA;

3. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd lofnodi Llythyrau o Fwriad mewn perthynas â Chytundebau Cyflawni Safle Treth ar ran y Porthladd Rhydd Celtaidd;

4. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd neu unrhyw gytundebau ategol sy'n angenrheidiol i barhau â'r rhaglen o gamau nesaf a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, gan nodi y bydd adroddiadau pellach yn cael eu dwyn yn ôl i'r Aelodau ar y pwyntiau y cyfeirir atynt o hyn allan.

**<u>Rheswm dros y penderfyniadau:</u>**

Bydd statws Porthladd Rhydd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer twf economaidd sylweddol yn yr ardal a'r rhanbarth ehangach sy'n gysylltiedig â'r sector ffermydd gwynt ar y môr sy'n dod i'r amlwg a'r agenda ynni adnewyddadwy ehangach. Bydd Porthladd Rhydd Celtaidd hefyd yn cefnogi gwaith i ddatgarboneiddio diwydiant, tai a thrafnidiaeth yn lleol ac yn rhanbarthol gan helpu i gyrraedd targedau sero net o ran carbon. Bydd twf economaidd gwyrdd yn helpu i fynd i'r afael â materion strwythurol tlodi ac amddifadedd yn yr economi leol a rhanbarthol gan ysgogi'r gadwyn gyflenwi leol a chynyddu sgiliau a chymwysterau'r boblogaeth breswyl.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Mae'r penderfyniadau i'w rhoi ar waith ar unwaith, yn dilyn cytundeb Cadeirydd y Cabinet Craffu.

**<u>Ymgynghoriad:</u>**

Datblygwyd y cais Porthladd Rhydd gan y ddau awdurdod lleol, ABP a MHPA, gan weithio mewn partneriaeth. Cynhaliwyd ymgynghoriad ehangach hefyd gydag ystod eang o sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat gan gynnwys rhwydweithiau busnes o fewn ardal arfaethedig y Porthladd Rhydd.

**CADEIRYDD**